CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 16 CHWEFROR 2016

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
B Owen, I C Thomas, H W Roberts, M Thomas, G Thomas (c), A Hopcyn, E Hughes, T Thomas, K Williams , G Thomas (p)

1. **Ymddiheuriadau**

M Sarnacki (salwch) W R Owen (cwrs) W T Owen (salwch) A Bohana (gweithio)C Williams (salwch) E Lovgreen (gwarchod)

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Cystadleuaeth bandiau pres Gogledd Cymru yn Galeri

Safodd pawb am funud er cof am Cyn Cynghorydd/Maer Mair Williams

3. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 2 Chwefror 2016
Penderfynwyd
Ar ôl newid "clwb Hwylio" i "yacht club" derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C16/0072/14/LL ***Cytuno***
Estyniadau a newidiadau (cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan gais rhif C15/0579/14/LL) /Extensions and alterations (amended scheme to that approved under application No. C15/0579/14/LL)

Eridon, Bethel Road, Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Ail ysgrifennu at y swyddfa bost

9. Cylchlythyr Cadw

Penderfynwyd

Ail atgoffa Cadw ein bod ni yn disgwyl mwy o wybodaeth am y digwyddiadau yn y Castell. Clerc wedi cael cyfarfod efo'r Prif Geidwad ond yn amlwg angen ail son

10. Aelodaeth Unllais Cymru

Penderfynwyd

I dalu aelodaeth

11. National Grid

Cysylltiad Gogledd Cymru

Penderfynwyd

Ysgrifennu yn nodi pryderon lle mae nhw yn son " sylwadau a gawsom yn bwysig iawn inni" er mae nhw i weld yn anwybyddu sylwadau pawb am roi nhw dan ddaear. Mae nhw yn gwneud hyn yn Port ar ôl denu grant

12. E-bost Melissa Cann

Parthed linc wefan
Penderfynwyd
Peidio caniatáu

13. E-bost Cymorth Cynllunio Cymru
Penderfynwyd
Siomedig bod na ddim cwrs "sut i ymateb yn effeithiol i geisiadau" yn y Gogledd ac enwau i'r clerc ar gyfer y cwrs arall

14.TCC

Costau newydd
Penderfynwyd
Gan mai taliad am y flwyddyn ariannol presennol ydi a bod Bangor bellach wedi cytunno a bod y swm yn sylweddol llai – talu ac yna disgwyl i weld beth ydi penderfyniad Her Gwynedd am y gwasanaeth

15.Gwalch

Gwasanaethau Gwledig
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

16.Noson y Maer (Cyfarfod Blynyddol)
Oherwydd problemau yn y Celtic ar y 19 Mai gofyn i ystyried newid y dyddiad i'r 12fed er mwyn cadw yng Nghaernarfon
Penderfynwyd
Rhoddwyd caniatâd i newid i'r 12fed o Fai

17.**E-bost Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru**
Penderfynwyd
Clerc i ateb yr holiadur yn dilyn y drafodaeth

18. Dyddiadau cyfarfodydd Her Gwynedd
Penderfynwyd
Cyng H W Roberts mynd i sessiwn Blaenau a Cyng W l Davies, Cyng T Thomas a Cyng A Hopcyn i fynychu Caernarfon

19. Rhybudd o Gynnig Cyng. Menna Thomas
Penderfynwyd

Clerc i adrodd yn ôl i brofi bod yn gyfreithiol ac hefyd i holi i weld os ydi cynghorau eraill yn gwneud rhywbeth tebyg

20.Cwestiynau

Dim

Gorffenodd y cyfarfod am 18.42

Arwyddwyd …….. Dyddiad ……..